# Cyngor Caerdydd

# Adroddiad Gwrthwynebu

## Ailddatblygu Ysgol Uwchradd Cantonian, Ysgol Arbennig Riverbank ac Ysgol Uwchradd Woodlands

### Cefndir

1. Ym mis Chwefror 2019, cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion i:

   - Ymestyn Ysgol Uwchradd Cantonian o chwe dosbarth mynediad (6DM) i wyth dosbarth mynediad (8DM) gyda lleoedd chweched dosbarth i hyd at 250 o ddisgyblion gan gynnwys adeiladu cyfleusterau ysgol newydd a mwy o faint yn lle adeiladau presennol Ysgol Uwchradd Cantonian ar yr un safle.

   - Ymestyn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) i ddisgyblion sydd â Chyflyrau ar y Sbectrwm Awtistig (CSA) yn Ysgol Uwchradd Cantonian o 20 lle i 30 lle. Byddai adeiladau newydd Ysgol Uwchradd Cantonian yn cynnwys llety pwrpasol ar gyfer y CAA.

   - Ymestyn Ysgol Arbennig Riverbank o 70 i 140 lle, fydd yn cael ei gyflawni trwy ail-leoli'r ysgol mewn adeiladau pwrpasol newydd a mwy o faint ar safle Ysgol Uwchradd Cantonian.

   - Ymestyn Ysgol Uwchradd Woodlands o 140 i 240 lle, fydd yn cael ei gyflawni trwy ail-leoli'r ysgol mewn adeiladau pwrpasol newydd a mwy o faint ar safle Ysgol Uwchradd Cantonian.

2. Nododd yr ymgynghoriad gynigion y Cyngor a’r rhesymau dros y cynnig (gellir gweld copi o'r ddogfen ymgynghori yn www.cardiff.gov.uk/cantoniansitepropsals). Dilynodd y broses ymgynghori ganllawiau Llywodraeth Cymru ac roedd yn gyfle i randdeiliaid ddysgu am y cynigion ac i'r Cyngor glywed barn y bobl hynny yr oedd diddordeb ganddynt.

### Adroddiad Ymgynghori

3. Cyhoeddwyd adroddiad ymgynghori yn dilyn yr ymgynghoriad (gellir gweld copi o’r adroddiad ymgynghori yn www.caerdydd.gov.uk).

### Hysbysiadau statudol

4. Yn ei gyfarfod ar 13 Mehefin, cytunodd Cabinet y Cyngor i gyhoeddi hysbysiadau statudol i:

- Gynyddu capasiti Ysgol Uwchradd Cantonian o 6 dosbarth mynediad (6DM) i wyth dosbarth mynediad (8DM) gyda darpariaeth chweched dosbarth i hyd at 250 o ddisgyblion mewn adeiladau newydd.

- Ehangu'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) ar gyfer dysgwyr â Chyflwr Sbectrwm Awtistig (CSA) yn Ysgol Uwchradd Cantonian o 20 i 30 lle mewn uned bwrpasol yn adeiladau newydd yr ysgol;

- Trosglwyddo Ysgol Arbennig Riverbank i'r safle ar Doyle Avenue a chynyddu nifer y lleoedd o 70 i 112 yn yr adeiladau newydd.

- Trosglwyddo Ysgol Arbennig Woodlands i'r safle ar Doyle Avenue a chynyddu nifer y lleoedd o 140 i 240 yn yr adeiladau newydd;

5. Cyhoeddwyd yr hysbysiadau statudol ar 28 Mehefin 2019 am gyfnod o 28 diwrnod i alluogi gwrthwynebiadau. Daeth cyfnod yr hysbysiad statudol i ben ar 25 Gorffennaf 2019 (gellir gweld copïau o'r hysbysiadau yn Atodiad 1).

6. Cyhoeddwyd yr hysbysiadau ar wefan Cyngor Caerdydd (www.caerdydd.gov.uk/cantoniansiteproposals), ar fynedfeydd y tair ysgol (Ysgol Uwchradd Cantonian, Ysgol Arbennig Riverbank ac Ysgol Uwchradd Woodlands) ac mewn ardaloedd lleol.

7. Rhoddwyd copïau o'r hysbysiadau i'r ysgolion i'w rhoi i ddisgyblion, rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, llywodraethwyr ac aelodau staff. Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 cafodd yr holl sefydliadau ac ymgynghoreion angenrheidiol eraill gopi papur neu cafodd dolen i'r hysbysiadau a gyhoeddwyd ar wefan y Cyngor ei e-bostio atynt.

8. Pan fo gwrthwynebiadau i hysbysiadau statudol yn dod i law, rhaid cyhoeddi adroddiad gwrthwynebu yn crynhoi'r gwrthwynebiadau ac ymateb y cynigydd i'r gwrthwynebiadau hynny.

**Gwrthwynebiadau i'r cynigion**

9. Derbyniodd y Cyngor un gwrthwynebiad erbyn dyddiad cau'r hysbysiadau statudol.

10. Isod ceir crynodeb o'r gwrthwynebiad ac ymateb y Cyngor.

11. Y pwyntiau a godwyd yn y gwrthwynebiad oedd:

    - Ni ystyriodd y ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd ar ddechrau'r flwyddyn effaith y datblygu a gynlluniwyd ar y gymuned leol.

    - Mae gan Ysgol Uwchradd Cantonian fynediad gwael iawn – mae'r brif fynedfa a mynedfa'r cefn ar strydoedd preswyl cul yn hytrach nag ar briffyrdd; mae'r brif fynedfa ar stryd sydd â phalmentydd gwael ac mae gwelededd gwael wrth y fynedfa; mae mynedfa'r cefn yn Doyle

Avenue yn agor yn uniongyrchol ar gornel dall cul gyda cheir wedi'u parcio ar hyd y tro gan rwystro gweledeedd hyd yn oed yn fwy;

- Bydd nifer arfaethedig y plant yn Ysgol Uwchradd Cantonian gyda'r 200+ o ddisgyblion ychwanegol o Riverbank a Woodlands yn gwneud y materion diogelwch ar y ffyrdd yn llawer gwaeth o ganlyniad i nifer uchel y cerbydau ychwanegol fydd eu hangen i gludo disgyblion sydd ag anghenion arbennig yn ôl ac ymlaen o'r ysgol.

- Mae'r datblygiad tai newydd ym Mhlasdŵr yn creu mwy o draffig trwy'r Tyllgoed, yn benodol ar Heol Sain Ffagan, ac ni all y sefyllfa ond waethygu, yn enwedig yn ystod yr amseroedd prysuraf. Caiff Doyle Avenue ei ddefnyddio fel llwybr byr gan lawer o gymudwyr sy'n ceisio rasio'r traffig ac yn gyrru'n rhy gyflym ar hyd y ffordd;

- Heb os, bydd disgyblion Riverbank a Woodlands yn defnyddio tacsis a bysus mini i fynd i'r ysgol ar amser pan fo'r traffig ar ei waethaf yn yr ardal leol. Mae'n ymddangos ei bod yn annhebygol y bydd bod mewn traffig o ganlyniad i fynediad gwael at yr ysgol yn debygol o helpu i baratoi'r disgyblion hyn ar gyfer eu diwrnod ysgol. Byddai'n annerbyniol pe bai cynllunio ariannol yn cael ei ystyried ar draul llesiant y disgyblion hyn a'r tarfu y mae'n debygol o achosi iddynt.

- Ailystyriwch y cynigion neu o leiaf adolygu'r cynlluniau gyda'r bwriad o newid y trefniadau mynediad cyfredol i wella diogelwch disgyblion a'r gymuned;

- Ailystyried y cynlluniau i symud Ysgolion Riverbank a Woodlands i safle Ysgol Uwchradd Cantonian gan nad yw mynediad at y safle yn addas at y diben ar hyn o bryd ar gyfer gofynion trafnidiaeth disgyblion ag anghenion arbennig;

- Mae Ysgolion Riverbank a Woodlands yn darparu gwasanaeth i ddisgyblion sydd ag anghenion arbennig a dyma'r disgyblion sydd mwyaf tebygol o ddioddef o unrhyw darfu sylweddol ar eu trefn bob dydd neu o gael eu symud o amgylchedd cyfarwydd.

**Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau**

<u>Cyfiawnhau'r safle</u>

12. Mae'r ddogfen ymgynghori'n amlinellu cynnig i leoli Ysgol Uwchradd Cantonian ac Ysgolion Arbennig Riverbank a Woodlands ar safle Ysgol Uwchradd Cantonian o ganlyniad i'r galw am leoedd i ddisgyblion yn yr ardal.

13. Mae safle Ysgol Uwchradd Cantonian wedi'i ystyried oherwydd ei leoliad yn y dalgylch a maint y safle. Mae'n un o'r safleoedd ysgol mwyaf yng Nghaerdydd ac mae asesiadau yn dangos nad oes digon o le ar y safleoedd ysgol cyfredol ar gyfer y ddarpariaeth fwy sydd ei hangen.

14. Mae’r Cyngor hefyd wedi ystyried cyflwr y cyfleusterau ysgol cyfredol a’r angen i ailddatblygu. Rhoddodd Llywodraeth Cymru wybod i’r holl gynghorau yng Nghymru y byddai adeiladau ysgol â sgôr cyflwr o D yn cael eu hadnewyddu/uwchraddio pe bai buddsoddiad cyllid cyfalaf yn cael ei ddarparu trwy Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B. Mae Ysgol Uwchradd Cantonian wedi cael sgôr D o ran ei gyflwr (diwedd oes), gydag Ysgol Arbennig Riverbank ac Ysgol Uwchradd Woodlands yn cael sgôr D o ran addasrwydd (gwael iawn).

15. Er bod y Cyngor yn cydnabod y pryderon a godwyd, yn dilyn mwy o fanylion dylunio, rhagwelir y byddai'r cynnig yn cyfrannu at gyflawni cydbwysedd gwell rhwng y galw am leoedd ysgol yng Nghaerdydd a nifer y lleoedd ysgol sydd ar gael yn ogystal â mynd i'r afael â'r anghenion cyflwr aciwt.

<u>Teithio, Trafnidiaeth a mynediad i’r safle</u>

16. Mae safle Ysgol Uwchradd Cantonian yn fawr gyda lle i Ysgol Arbennig Riverbank ac Ysgol Uwchradd Woodlands yn ogystal ag Ysgol Uwchradd Cantonian. Mae nifer o fanteision ar gyfer y safle, gan gynnwys y ffaith ei fod yn agos at Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn (1.1 milltir i 1.5 milltir), y byddai amser teithio rhwng y ddau safle’n fyr (tua 5 – 10 munud mewn car neu 10 - 20 munud ar feic), bod lle i fysus a thacsis i ddisgyblion ar y safle, bod y safle yn gymharol ganolog, mae iddo gysylltiadau trafnidiaeth da ac mae’n agos at briffyrdd.

17. Cydnabyddir y bydd y cynigion hyn yn cynyddu gweithgarwch addysgol ar safle Ysgol Uwchradd Cantonian a bydd hyn yn arwain at deithiau ychwanegol i'r safle sydd â'r potensial i ychwanegu/newid y pwysau sydd ar y rhwydwaith priffordd leol ar hyn o bryd.

18. Fel arfer byddai nifer sylweddol o ddisgyblion sy’n mynychu Ysgol Arbennig Riverbank ac Ysgol Uwchradd Woodlands yn teithio mewn car neu fws mini a disgwylid i nifer y cerbydau sy’n teithio i safle’r ysgol a rennir gynyddu.

19. Fodd bynnag, fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori, mae materion trafnidiaeth wedi’u hystyried wrth ddatblygu’r cynnig a byddai manylion pellach yn cael eu hystyried. Gallai hyn gynnwys newid y cynlluniau, megis pwyntiau mynediad, yn rhan o’r cynnig cynllunio a byddai ymgynghoriad llawn yn cael ei gynnal arno maes o law.

20. Yn rhan o’r manylion dylunio pellach, mae angen ystod o gamau gweithredu i fynd i’r afael â’r cynnydd yn nifer y bobl fyddai'n teithio i'r safle er mwyn lleihau'r potensial am effaith fwy ar y rhwydwaith priffordd leol. Mae polisi'r Cyngor yn golygu mai’r prif darged ar gyfer y datblygiadau newydd yw gwneud cyfraniad cadarnhaol at welliannau trwy'r ddinas gyfan o ran y defnydd o ddulliau teithio cynaliadwy (cerdded, ar feic a/neu ar drafnidiaeth gyhoeddus). Cyflawnir hyn trwy sicrhau bod y datblygiad wedi’i integreiddio’n llawn mewn seilwaith i leihau'r effaith bosibl ar drafnidiaeth. Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd ac yn gwerthfawrogi’r risgiau, felly caiff Asesiad Trafnidiaeth ei

gynnal i asesu'n llawn y goblygiadau trafnidiaeth sy'n gysylltiedig â'r datblygiad ac i nodi mesurau lliniarol a chyfleoedd i wella teithio llesol. Byddai mesurau lliniarol yn cael eu cyflwyno a bydd ymgynghoriadau'n cael eu cynnal arnynt wrth i'r project symud yn ei flaen.

21. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bob ysgol yng Nghaerdydd Gynllun Teithio Llesol erbyn 2020. Bydd hyn yn nodi'r camau gweithredu y mae'r ysgol wedi'u pennu i leihau'r defnydd o geir ac annog teithio llesol. Mae ystod o fesurau ar gael a fyddai'n helpu i gefnogi disgyblion, rhieni a staff i deithio'n fwy llesol i'r ysgol. Bydd y Cyngor yn gweithio gydag ysgolion i hyrwyddo a gweithredu cymaint o gynlluniau â phosibl er mwyn annog pob disgybl, rhiant ac aelod o staff i deithio'n llesol i'r ysgol lle bo'n bosibl. Bydd rôl yr ysgol yn y gwaith o ddatblygu Cynllun Teithio Llesol cyn y dyddiad agor arfaethedig hefyd yn helpu i godi ymwybyddiaeth am ddiogelwch ar y ffyrdd, gallai gynnwys dewisiadau ar gyfer hyfforddiant beicio a'i nod yw cynyddu nifer y bobl sy'n teithio'n llesol.

22. Bydd y gwaith asesu trafnidiaeth (gan ymgorffori cynllun teithio ar y safle) yn mynd yn ei flaen i gynnwys mesurau priffordd a argymhellwyd i leihau cyfran gyffredinol y cerbydau sy'n mynd i'r safle. Caiff lefelau mwy o deithio llesol eu hannog trwy wella prif lwybrau cerdded a beicio o'r ardal o amgylch yr ysgol, gan gynnwys croesfannau priodol. Bydd gan safle'r ysgol ffyrdd mynediad cerdded a beicio uniongyrchol a chyfleus a chyfleusterau diogel ar gyfer storio beiciau a sgwteri. Bydd gweithredu'r Cynllun Teithio Llesol yn lleihau nifer y cerbydau sy'n mynd i'r safle a chaiff gwelliannau seilwaith eu gwneud i groesfannau, troedffyrdd a llwybrau beicio newydd. Bydd yr Asesiad Trafnidiaeth yn cynnig unrhyw fesurau priffordd sydd eu hangen er mwyn i gyfleusterau effeithlon, cyfforddus, cyfleus a diogel fodloni anghenion mynediad penodol y tair ysgol o ran cerbydau a theithio llesol. Bydd y gwaith asesu trafnidiaeth hefyd yn cynnwys gwybodaeth am draffig adeiladu ar y safle. Bydd y Cyngor yn edrych ar asesu a mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn dilyn yr Asesiad Trafnidiaeth a mwy o fanylion dylunio.

23. Er bod y Cyngor yn cydnabod y gallai fod fwy o draffig, caiff traffig a thagfeydd cyfredol eu hystyried trwy fesurau wedi'u dylunio i alluogi cerbydau awdurdodedig i fynd i mewn i safle'r ysgol ac allan ohono'n effeithlon, yn benodol gan ganolbwyntio ar amseroedd cyrraedd a gadael mwyaf prysur yr ysgol i leihau unrhyw oedi. Hefyd caiff mesurau eu nodi i leihau'r problemau presennol o ran parcio a llwybrau byr yn cael eu cymryd ar ffyrdd lleol, i wella'r sefyllfa gyfredol ac i ategu'r mesurau sy'n annog shifft foddol tuag at deithio lleol.

24. Gallai'r mesurau hyn gynnwys y canlynol:

- galluogi cerbydau hanfodol yn unig i fynd i safle'r ysgol ac eiddo preswyl lleol;
- gwahardd holl symudiadau cerbydau eraill nad ydynt yn hanfodol yn ardal mynedfa'r ysgol;

- cyfyngu ar barcio ar amseroedd dechrau a gorffen diwrnod yr ysgol, ac
  o bosibl, cyfyngu ar fynediad fel na ellir defnyddio'r ffordd fel llwybr byr.

25. Bydd Gorchmynion Rheoli Traffig newydd ar gyfer y cyfyngiadau hyn yn destun proses ymgynghori.

26. Wrth i waith asesu trafnidiaeth bellach fynd yn ei flaen ar y cyd â dyluniad manwl o gynllun yr ysgol, mynedfeydd ac adeiladau, byddai dewisiadau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer cynigion traffig yn fater o ymgysylltiad pellach â rhanddeiliaid, gan gynnwys trigolion lleol.

27. Pan gaiff cynlluniau manwl eu datblygu, bydd Gorchmynion Rheoli Traffig a chynlluniau traffig mwy manwl yn cael eu cyhoeddi i gael barn rhanddeiliaid, gan gynnwys trigolion lleol. Bydd diogelwch teithio cerddwyr, trigolion a disgyblion yn hanfodol cyn i unrhyw gynlluniau gael eu symud ymlaen.

<u>Mwy o draffig yn yr ardal ehangach o ganlyniad i ddatblygiad tai Plasdŵr</u>

28. Penderfynodd y Cyngor roi caniatâd Cynllunio Amlinellol ar gyfer datblygiad Plasdŵr yng ngogledd-orllewin Caerdydd (Rhif cais 14/02733/MJR) ym mis Mawrth 2017. Rhoddwyd caniatâd i welliannau priffyrdd sylweddol trwy ardal ehangach Creigiau/Sain Ffagan, Y Tyllgoed, Llandaf a Radur/Pentre-poeth i leihau effaith bosibl y gwaith o ddatblygu'r rhwydwaith priffordd leol.

29. Bydd gwelliannau wedi'u cynllunio yn yr ardal hon yn helpu i leihau pwysau traffig ac i wella darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus ar hyd Coridor Heol Llantrisant yr A4119 i greu manteision i'r cymunedau presennol yn ogystal â meddianwyr datblygiadau newydd, gan alluogi'r defnydd o ddewisiadau teithio cynaliadwy.

30. Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon a godwyd a byddai'n ystyried yn llawn y goblygiadau priffyrdd ehangach wedi'u cynllunio yn rhan o'r cais cynllunio ar gyfer safle Doyle Avenue.

<u>Effaith ar ddisgyblion Riverbank a Woodlands</u>

31. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau nad yw'r cynnig yn cael effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg, y ffordd y darperir y Cyfnod Sylfaen neu bob cyfnod allweddol addysg mewn unrhyw un o'r tair ysgol neu'r CAA yn Ysgol Uwchradd Cantonian. Bydd y Cyngor yn ystyried dewisiadau i leihau tarfu yn ystod unrhyw gyfnod pontio o'r hen adeiladau i'r cyfleusterau newydd ac mae'n disgwyl y bydd cyfleusterau Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cefnogi'n well y gwaith o ddarparu addysg o ansawdd.

32. Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar arweinwyr ysgol a gwaith llywodraethu, a allai gael effaith negyddol ar ganlyniadau addysgol. Mae gan y Cyngor brofiad o reoli

projectau newid tebyg a bydd yn adeiladu ar wersi a ddysgwyd o rywle arall, gan weithio'n agos gyda'r ysgolion dan sylw i sicrhau pontio didrafferth i'r holl ddisgyblion.

Effaith gymunedol

33. Ystyrir y canlynol wrth ystyried cynnig: Man Agored Cyhoeddus, parcdir, sŵn a thagfeydd. Os bydd y project yn symud yn ei flaen, bydd swyddogion yn gweithio gydag ysgolion ac unrhyw grwpiau cymunedol i sicrhau bod y cynnig yn osgoi effeithiau negyddol os yn bosibl.

34. Gyda darpariaeth hamdden ehangach a chwaraeon sylweddol yn cael eu datblygu, amcan allweddol fyddai galluogi sefydliad trydydd parti i ddefnyddio cyfleusterau chwaraeon yr ysgol, ar sail ariannol gynaliadwy. Mae hyn yn ategu nod Llywodraeth Cymru o gyfleusterau a rennir mewn ysgolion sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Rhagwelir y bydd y datblygiad yn:

- Rhoi cyfleoedd i'r gymuned leol a sefydliadau chwaraeon i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol er mwyn gwella iechyd a datblygu sgiliau, yn benodol ymhlith grwpiau nad ydynt yn gwneud llawer;

- Gweithredu yn unol â'r agenda cenedlaethol ar gyfer chwaraeon gan ystyried strategaethau a fabwysiedir yn genedlaethol;

- Ennyn agweddau cadarnhaol o ran chwaraeon a gweithgareddau corfforol ymysg pobl ifanc a gostwng y gyfradd rhoi'r gorau i chwaraeon wrth fynd yn hŷn;

- Cynyddu nifer y bobl o bob oedran a gallu sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol, yn cynnwys pobl ag anableddau;

- Defnyddio'r cyfleusterau i annog ystod, safon a nifer y cysylltiadau clybiau chwaraeon ysgol a chreu cystadleuaeth sy'n cynnwys pobl ifanc ac oedolion;

- Rhoi mynediad fforddiadwy i gyfleusterau a hunan-ariannu a dod yn gost niwtral yn y lle cyntaf, a chreu incwm cynaliadwy i'r ysgol yn y dyfodol.

35. Trwy gydol y project, bydd y Cyngor yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â'r gymuned i sicrhau bod cyfleoedd sy'n ateb anghenion y gymuned leol yn cael eu bodloni.

36. Hefyd tynnwyd sylw at y bwriad cymunedol cadarnhaol gan ymateb Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Cantonian i'r ymgynghoriad, *'mae'r ysgol am adeiladu cysylltiadau cryfach â'r gymuned ac annog y defnydd o'r ysgol gyda'r nos ac ar adegau eraill pan nad yw'n cael ei defnyddio a*

*gweld yr ysgol newydd fel cyfle gwych i ddatblygu rôl yr ysgol yng Nghymuned y Tyllgoed a'r ardaloedd cyfagos'.*

**NICK BATCHELAR**
Cyfarwyddwr
Awst 2019
*Atodiadau*

Atodiad 1 – Hysbysiadau Statudol